




Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru

National Independent
Safeguarding Board Wales



Adroddiad Blynyddol 2021-22



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	5
Dyletswyddau a chyfrifoldebau	5
Gofynion yr Adroddiad Blynyddol	5
Aelodau	6
 Cynllun Gwaith 2021-2022 y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol:	
Dyletswydd Strategol 1 y Bwrdd Cenedlaethol: Rhoi cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol	7
Dyletswydd Strategol 2 y Bwrdd Cenedlaethol: Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru	9
Y Byrddau Diogelu Rhanbarthol	12
Adroddiadau'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol unigol	14
Dyletswydd Strategol 3 y Bwrdd Cenedlaethol: Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (Adran 132 (2)).	37

Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn ymdrin â blwyddyn sydd wedi ein gweld yn dechrau dod allan o'r pandemig Covid-19 ac yn delio â'r effaith sylweddol y mae'r pandemig yn parhau i'w chael ar y gwaith o ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae staff pob asiantaeth yn teimlo effeithiau gorfod gweithio dan bwysau mor ddwys am gyfnod mor hir, ac mae gwasanaethau sydd wedi bod dan straen yn teimlo'n fregus ac yn llai cydnerth wrth iddynt barhau i fynd i'r afael â'r lefelau o niwed sydd wedi dod i'r amlwg wrth i gyfyngiadau gael eu codi.

Yn ogystal, rydym yn wynebu argyfwng costau byw sy'n cael effaith anghymesur ar y bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, ac mae'r rhyfel yn Wcráin ynghyd â'r argyfwng ffoaduriaid a achosir ganddo wedi arwain at heriau ychwanegol i bob asiantaeth a phob gwasanaeth.

Mae'r cyfnod digynsail hwn wedi dangos pwysigrwydd mawr sicrhau ymateb amlasiantaeth effeithiol i'r angen i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, ac mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn er mwyn ymateb i'r heriau hynny.

Hoffai'r Bwrdd Cenedlaethol ganmol ymrwymiad a gwaith caled pawb sy'n gweithio ym maes diogelu, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond mae hefyd yn sylweddoli faint o waith sydd o'n blaen yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Dim ond wrth i bartneriaethau cryf gydweithio â'i gilydd y gall y gwaith hwnnw fod yn effeithiol, ac mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi ymrwymo i chwarae ei ran.

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Dyletswyddau a chyfrifoldebau

Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol dair prif ddyletswydd a gaiff eu hegluro yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sef:

1. **Rhoi cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol**
2. **Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru**
3. **Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (Adran 132 (2)).**

At hynny caiff wyth o gyfrifoldebau penodol y Bwrdd Cenedlaethol eu hegluro yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, sef y Canllawiau ynghylch Diogelu, dan Ran 7 y Ddeddf. Dyma'r cyfrifoldebau:

1. [Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn] **gweithio ochr yn ochr â** Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau cyson i bolisiau ac arferion diogelu ledled Cymru (par. 246)
2. Bydd [y Bwrdd Cenedlaethol] yn **ymgysylltu â chadeiryddion** y Byrddau Diogelu, ac arolygiaethau perthnasol...o leiaf ddwywaith y flwyddyn (par. 258)

3. Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn **cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth** ar ddiogelu ac amddiffyn mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru (par. 261)
4. Os bydd...yn nodi **thema o bryder**...gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymhell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol (par. 263)
5. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio mecanweithiau i **ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio**, ymarferwyr ac unigolion arbenigol (par. 264)
6. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **cyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun gan gynnwys unrhyw waith arfaethedig**. Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddiwyddiadau ymgysylltu blynyddol (par. 265)
7. Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i **"ymgyngori â'r** rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt". Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru (par. 266)
8. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **ystyried yr hyn a ddysgwyd o weithgareddau 'ymgysylltu â defnyddwyr'** y Byrddau Diogelu (par. 266).

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Caiff y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol ei disgrifio'n benodol yn Rheoliadau Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015.

Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Ebrill 2021 – Mawrth 2022



Tessa Hodgson



Jan Pickles



Jane Randall
(Cadeirydd)



Lin Slater



Tony Young

Cynllun Gwaith 2021-2022 Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Dyletswydd Strategol 1 y Bwrdd Cenedlaethol: Rhoi cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol

Cyfrifoldeb penodol 1 y Bwrdd Cenedlaethol: Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn **gweithio ochr yn ochr** â Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant **i sicrhau gwelliannau cyson** i bolisiau ac arferion diogelu ledled Cymru

Cafodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol eu cysylltu â Byrddau Diogelu Rhanbarthol unigol, a buodd yr aelodau'n mynychu cyfarfodydd y Byrddau hynny ac yn cynnig cynghor a chymorth ynddynt.

At hynny, datblygodd y Bwrdd Cenedlaethol drosolwg o waith diogelu ac o themâu a materion sy'n dod i'r amlwg, drwy:

- » Ymgysylltu a chwrdd yn rheolaidd â Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- » Cynnwys adolygiad a chrynodeb o waith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ei Adroddiad Blynyddol
- » Mynychu diwrnodau datblygu'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- » Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ddatblygu, cefnogi a chynnal seminarau a gweminarau yn ystod yr Wythnos Ddiogelu, a chynnal porth a oedd yn dangos yr holl ddiwyddiadau a'r holl weithgareddau hynny ar gyfer y Bwrdd Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol mewn un man.

Gwnaeth y Byrddau Diogelu Rhanbarthol geisiadau penodol am gynghor a chymorth gan y Bwrdd Cenedlaethol ynghylch:

- » Rôl yr Adolygiad Ymarfer Oedolion mewn Cwêst
- » Ymatebion i bryderon mewn Cartrefi Gofal Annibynnol i Blant.

Cyfrifoldeb penodol 2 y Bwrdd Cenedlaethol: Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **ymgysylltu â chadeiryddion** y Byrddau Diogelu, ac arolygiaethau perthnasol...o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Sicrhodd yr aelodau fod y Bwrdd Cenedlaethol yn ymwybodol o faterion a themâu diogelu a oedd yn dod i'r amlwg, a oedd yn effeithio ar y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, drwy gyfarfodydd bob deufis â chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

At hynny, sicrhodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol sgwrs ddwyffordd â sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â diogelu, drwy adnabod sefydliadau sy'n rhan o'r dirwedd ddiogelu yng Nghymru. Mae'r sefydliadau hynny'n cynnwys:

- » Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- » Comisiynydd Plant Cymru
- » Gofal Cymdeithasol Cymru
- » Cynghor y Gweithlu Addysg
- » Cynghor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- » Yr Uned Atal Trais.

Cyfrifoldeb penodol 8 y Bwrdd Cenedlaethol: Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **ystyried yr hyn a ddysgwyd o weithgareddau ‘ymgysylltu â defnyddwyr’** y Byrddau Diogelu.

- » Yn ei Adroddiad Blynyddol crynhodd y Bwrdd Cenedlaethol wybodaeth am y gweithgareddau ymgysylltu â defnyddwyr, a nodwyd yn adroddiadau blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.
 - » Ym mis Chwefror 2021, cafodd Prifysgol John Moores Lerpwl ei chomisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol i gyflawni ymchwil er mwyn archwilio a deall trefniadau diogelu ledled Cymru. Nod yr ymchwil oedd nodi sut beth yw da a darparu argymhellion i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect 'Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru' yn cynnwys tair ffrwd waith:
- » Ffrwd waith 1: Gwerthusiad o Effeithiolrwydd Trefniadau Diogelu Gweithredol 'Drws Ffrynt' Amlasiantaeth yng Nghymru;
- » Ffrwd waith 2: Datblygu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Diogelu Statudol; a
- » Ffrwd waith 3: Negeseuon gan Bobl. Disgwylir i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2022.
- » Cyfrannodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol i waith yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ynghylch ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau, sy'n parhau i fynd rhagddo.

Dyletswydd strategol 2 y Bwrdd Cenedlaethol: Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

Cyfrifoldeb penodol 3 y Bwrdd Cenedlaethol: *Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn **cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth** ar ddiogelu ac amddiffyn (gan gynnwys) mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt **er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru.***

- » Parhaodd gwaith ar Gam 2 Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn. Ffrwd waith 1 fydd canfyddiadau gwerthusiad Prifysgol John Moores Lerpwl o drefniadau diogelu 'drws ffrynt' amlasiantaeth yng Nghymru. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2022.
- » Ym mis Ionawr 2022, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol y Bwrdd Gweinidogol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwaith dysgu eang a nodir drwy broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl Cymru yn digwydd. Mae cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol yn aelod o'r Bwrdd hwnnw.
- » Mae aelodau'r Bwrdd wedi bod yn ymwneud â ffrydiau gwaith perthnasol er mwyn datblygu proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl – sy'n cynnwys y Grŵp Llywio, y Grŵp Materion Cyfreithiol a Llywodraethu a Grŵp y Storfa Ganolog.
- » Buodd aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn gweminarau a chynadleddau yng Nghymru ac ar draws y Pum Gwlad ac yn eu cefnogi. Roedd hynny'n cynnwys:

- » Cynnal gweminar y Bwrdd Cenedlaethol ar y cyd â'r Uned Atal Trais yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, ar y thema Diogelu Oedolion.
- » Aeth darparwr gwefan y Bwrdd Cenedlaethol ati i greu Porth yr Wythnos Ddiogelu er mwyn dangos yr holl ddigwyddiadau a'r holl weithgareddau hynny ar gyfer y Bwrdd Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol mewn un man.
- » Cyfrannodd aelodau'r Bwrdd at gynllunio a hyrwyddo Cynadleddau Diogelu'r Pum Gwlad drwy gydol y flwyddyn.
- » Roedd disgwyl i adolygiad thematig bob dwy flynedd Cymru o Adolygiadau Ymarfer Plant gael ei gynnal eleni. Fodd bynnag, dim ond 12 adolygiad oedd wedi'u cyhoeddi ers i'r adolygiad diwethaf gael ei gynnal. Felly, bydd penderfyniad pellach am faint digonol sampl yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn nesaf.
- » Adnoddau a gyhoeddwyd ar wefan y Bwrdd Cenedlaethol:
 - » Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb – canllaw a chyfeiriadur rhyngweithiol
 - » Adnoddau'r 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol'
 - » Making Words Matter: Attending to Language when working with children subject to or at risk of sexual exploitation
 - » Hunanesgeuluso ymhlith Oedolion – fideo byr
 - » Pecyn Partneriaid Ymgyrch Stopio Cosbi Corfforol
 - » Canllawiau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghylch cymhwysra ac atgyfeiriadau gwahardd

Cyfrifoldeb penodol 4 y Bwrdd Cenedlaethol: Os bydd...yn nodi **thema o bryder**...gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymhell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol.

Cafodd materion sy'n dod i'r amlwg, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu systemau a phrosesau diogelu ac er mwyn dylanwadu ar y gwaith hwnnw, eu nodi drwy:

- » Gymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru a Chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- » Trafod yn effeithiol â rheoleiddwyr ac arolygiaethau gwasanaethau cyhoeddus neu safonau'r gweithlu er mwyn ystyried unrhyw bryderon am ddiogelu, gwaith datblygu neu welliannau ar gyfer diogelu. Roedd y rheoleiddwyr a'r arolygiaethau hynny'n cynnwys:
 - » Arolygiaeth Gofal Cymru
 - » Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
 - » Swyddfa Archwilio Cymru
 - » Estyn
 - » Cyngor y Gweithlu Addysg.
- » Trafod â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg, er mwyn cael cynghreiriau effeithiol.
- » Monitro'r cynnydd a wnaed yng nghyswllt materion penodol sy'n peri pryder, sydd wedi'u nodi o'r blaen, ac adrodd ynghylch y cynnydd hwnnw:
 - » Canllawiau Statudol ynghylch Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru.
 - » Fframwaith rheoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg.

- » Trefnu cyflwyniadau i'r Bwrdd Cenedlaethol gan grwpiau â diddordeb, a oedd yn cynnwys:
 - » Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus
 - » Gofal Cymdeithasol Cymru – Grŵp Safonau Diogelu
 - » Prifysgol Caerdydd – Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion
 - » Prifysgol Sussex – Dadansoddiad o Adolygiadau Diogelu Oedolion yn Lloegr
 - » Alcohol Change UK
 - » Cyngor y Gweithlu Addysg – Canllawiau ynghylch Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol ym maes Addysg
 - » Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Grŵp Aur Cymru.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn disgwyl y bydd themâu sy'n peri pryder yn y dyfodol, y bydd angen eu huwchgyfeirio at Lywodraeth Cymru, yn deillio o'r gwaith a gomisiynwyd yng nghyswllt Cam 2 Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru, yn enwedig Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cymru Gyfan a ddisgwylir, sy'n cael ei ddatblygu'n rhan o'r rhaglen.

Cyfrifoldeb penodol 5 y Bwrdd Cenedlaethol: Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio mecanweithiau i ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio, ymarferwyr ac unigolion arbenigol.

Mae sicrwydd wedi'i geisio er mwyn penderfynu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru, drwy ymgysylltu â'r canlynol:

- » Yr Uned Atal Trais
- » Panel yr Adolygiad o Farwolaethau ymhlith Plant
- » Grŵp Cynghori Allanol Llywodraeth Cymru ar Blant a Phobl Ifanc
- » Grwpiau a wahoddwyd i roi cyflwyniadau ar bynciau penodol yng nghyswllt y Bwrdd Cenedlaethol.

Cyfrifoldeb penodol 6 y Bwrdd

Cenedlaethol: Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **cyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun** gan gynnwys **unrhyw waith arfaethedig**. Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol.

Rhoddodd y Bwrdd Cenedlaethol brosesau ar waith, a oedd yn ei alluogi i gyfathrebu'n eang â rhanddeiliaid:

- » Gwnaeth y Bwrdd Cenedlaethol ddiweddar ei wefan yn rheolaidd er mwyn darparu gwybodaeth gyfoes a pherthnasol a negeseuon allweddol am ddiogelu mewn fformatau hygyrch.
- » Gwnaeth gefnogi a hyrwyddo ymgyrchoedd cyhoeddus cenedlaethol y bwriedid iddynt atal niwed oherwydd camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio, adnabod niwed o'r fath ac ymateb iddo.
- » Gwnaeth gefnogi'r Wythnos Genedlaethol Diogelu a chynnal ei weminar blynyddol.
- » Gwnaeth lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a'i Gynllun Gwaith yn unol â'r amserlenni gofynnol.

Cyfrifoldeb penodol 7 y Bwrdd

Cenedlaethol: Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol **ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i "ymgyngori â'r rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt"**. Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru.

Er nad oes gan y Bwrdd Cenedlaethol y capasiti na'r adnoddau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sawl y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt, mae wedi ymateb i geisiadau unigol gan aelodau'r cyhoedd, a gyflwynwyd drwy wefan y Bwrdd, a hynny gan amlaf drwy eu cyfeirio at yr asiantaethau neu'r cyrff cyhoeddus cywir.

Ym mis Chwefror 2021, cafodd Prifysgol John Moores Lerpwl ei chomisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol i gyflawni ymchwiliad er mwyn archwilio a deall trefniadau diogelu ledled Cymru. Nod yr ymchwiliad oedd nodi sut beth yw da a darparu argymhellion i Weinidogion Llywodraeth Cymru. 'Negeseuon gan Bobl' yw ffrwd waith 3, ac mae a wnelo'n benodol â phrofiadau'r sawl y mae trefniadau diogelu yng Nghymru yn effeithio arnynt. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2022.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried canfyddiadau digwyddiadau ymgysylltu a gynhelir gan Gomisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Plant Cymru ac eraill. Bydd canfyddiadau ac argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a ddisgwylir yn ystod hydref 2022, yn arbennig o berthnasol hefyd i ddealltwriaeth y Bwrdd Cenedlaethol o waith diogelu ac amddiffyn yng Nghymru, ac yn ehangu ei brofiad o'r maes hwnnw.

Y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae adroddiad y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ynghylch y trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru sy'n gyfrifoldeb i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd yn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Rhanbarthol a phresenoldeb aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yng nghyfarfodydd y Byrddau Rhanbarthol.

Ceir chwe rhanbarth yng Nghymru. Yn **2021-2022** roeddent fel a ganlyn:

- » Caerdydd a'r Fro
- » Cwm Taf Morgannwg
- » Gwent
- » Canolbarth a Gorllewin Cymru
- » Gogledd Cymru
- » Gorllewin Morgannwg.

Lluniodd pum rhanbarth un Adroddiad Blynyddol i ymdrin â gwaith y Bwrdd Diogelu Plant a'r Bwrdd Diogelu Oedolion. Ym mhob rhanbarth, mae'r byrddau yn cael cymorth gan un Uned Fusnes.

Lluniodd pedwar rhanbarth eu hadroddiadau blynyddol erbyn y dyddiad olaf, sef 31 Gorffennaf, fel y nodir yn y canllawiau statudol. Cyhoeddodd un rhanbarth ei adroddiad ym mis Awst 2022 ac roedd un rhanbarth yn dal heb gyhoeddi ei adroddiad blynyddol adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn [ym mis Hydref 2022], felly nid yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Mae paragraff 209 y canllawiau a gyhoeddwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg', yn pennu'r hyn y dylid ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Roedd yr Adroddiad Blynyddol a welwyd ar gyfer pob un o'r rhanbarthau yn cynnwys yr hyn sy'n ofynnol.

Themâu o Adroddiadau Blynyddol y Byrddau Diogelu

Ymateb effeithiol i effaith y pandemig Covid-19 ar drefniadau diogelu

Roedd hon yn thema gyffredin ym mhob un o'r adroddiadau blynyddol a welwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol. Y ddwy elfen gyson a achosodd yr heriau mwyaf oedd y galw mawr ar wasanaethau a phroblemau staffio.

Symudodd ein cymdeithas allan o'r flwyddyn o gyfnodau clo a oedd wedi dileu llawer o'r cyfleoedd i sicrhau goruchwyliaeth broffesiynol a chwilfrydedd proffesiynol ynghylch sefyllfaoedd unigolion a theuluoedd. Wrth i ymarfer ddychwelyd i'w batrymau 'normal', cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau diogelu ac adroddwyd bod achosion yn rhai mwy cymhleth eu natur.

Digwyddodd y galw cynyddol hwn ar wasanaethau yr un pryd ag adroddiadau am bwysau o ran staffio ac am ddiffyg cydnerthedd yn y gweithlu. Roedd hynny'n wir am bob asiantaeth ond roedd yn arbennig o amlwg ym maes gofal cymdeithasol. Roedd staff naill ai'n gadael y gweithlu'n gyfan gwbl neu'n symud o fewn y gweithlu, ac roedd hynny'n arwain at ddiffyg gwybodaeth yn y sefydliad ac at ddiffyg profiad o weithio ym maes diogelu.

Caledi ariannol a'r argyfwng costau byw

Nododd nifer o'r Byrddau Rhanbarthol eu bod yn troi eu sylw at yr effaith y byddai'r argyfwng nesaf sydd ar ddod yn ei chael ar ddiogelu, sef yr argyfwng costau byw a'r caledi ariannol a fydd yn deillio o hynny. Bydd yn faes blaenoriaeth i'r Byrddau dan sylw yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Hyfforddiant a dysgu

Darparodd pob Bwrdd raglenni hyfforddiant helaeth ac amrywiol drwy gydol y flwyddyn. Parhawyd i ddarparu'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau ar blatfformau rhithwir, ond gwelwyd arwyddion bod rhai digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ailddechrau. Y flaenoriaeth gyntaf oedd ailgyflwyno digwyddiadau dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer proses yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion a'r Adolygiadau Ymarfer Plant. Mae hynny i'w groesawu'n fawr oherwydd mae'n hwyluso rhoi cymorth ychwanegol o ran lles i staff mewn amgylchiadau sy'n aml yn anodd.

At hynny, roedd yr Wythnos Genedlaethol Diogelu ym mis Tachwedd 2021 yn rhaglen o ddigwyddiadau a gyflwynwyd ar-lein yn bennaf. Buodd y rhanbarthau'n gweithio ar wahân a gyda'i gilydd i gyflwyno ystod gynhwysfawr o ddigwyddiadau ar draws yr wythnos gyfan. Adroddodd pob un o'r Byrddau ynghylch y digwyddiadau hynny yn eu hadroddiadau blynyddol.

Themâu eraill

Mae'n ofynnol i'r Byrddau adrodd ynghylch Zeu hadnoddau. Yn gyffredinol, prin yw'r manylion a gaiff eu cynnwys, a'r unig wybodaeth a nodir yw bod cyfraniadau ariannol asiantaethau'n cyd-fynd â'r Fformiwla Ariannu Genedlaethol a bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r Unedau Busnes. Felly, mae'n amhosibl cael darlun cenedlaethol o wariant y Byrddau Rhanbarthol ac o'r graddau y mae'r adnoddau hynny'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

Ail faes sy'n ddiffygiol yn gyson yw gwybodaeth am berfformiad. Mae'n rhywbeth y mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi'i nodi yn ystod blynyddoedd blaenorol. Er bod y rhanbarthau yn disgrifio'r gwaith a'r gweithgareddau y maent wedi ymgymryd â nhw, ni cheisir dadansoddi i ba raddau y maent wedi bod yn effeithiol o safbwynt cadw pobl yn ddiogel.

Adroddiadau'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol unigol



Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Hydref 2022, nid oedd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-2022. Yn anffodus, dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r Bwrdd Rhanbarthol fethu â bodloni'r terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi sydd wedi'i nodi mewn rheoliadau.

Hoffai'r Bwrdd Cenedlaethol gynghori'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i roi cynllun clir ar waith ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a rhoi sicrwydd ynghylch hynny i'r Bwrdd Cenedlaethol ac i Lywodraeth Cymru.

Adroddiad Blynyddol

Ar adeg cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol, darparwyd dolen l adroddiad llawn Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro:

www.cardiffandvalersb.co.uk/adults/about-us/annual-plans-reports

www.cardiffandvalersb.co.uk/children/about-the-rscb/annual-plans-reports

**Bwrdd
Diogelu
Cwm Taf
Morgannwg**



**Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board**

Cyflwyniad

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn ymdrin ag ardaloedd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ac yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 428,000. Nod y Bwrdd yw sicrhau bod pob un o'i ddinasyddion ym mhob grŵp oedran yn cael eu diogelu; caiff ei gyflawni drwy is-strwythur amlasiantaeth a chaiff ei gefnogi gan Uned Fusnes y Bwrdd. Mae presenoldeb y bartneriaeth amlasiantaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn dda ac ar lefel briodol, a chaiff yr is-grwpiau eu cynorthwyo gan asiantaethau i weithredu'n effeithiol.

Cyflawni'r Cynllun Blynyddol

Drwy gydol 2021, gwelwyd y pandemig Covid-19 yn effeithio am yr ail flwyddyn ar allu pob asiantaeth i ddarparu gwasanaethau o safon, oherwydd y galw mawr parhaus ar wasanaethau ac oherwydd pwysau o ran staffio. O ganlyniad, methwyd â chwblhau rhai o feysydd gwaith y Bwrdd oherwydd bod adnoddau hollbwysig wedi'u dargyfeirio er mwyn rheoli effaith y pandemig ar aelodau o'r gymuned a oedd yn agored i niwed. Er bod y pwysau ar systemau'n parhau, mae cynnydd wedi'i wneud yng nghyswllt pob un o'r meysydd gwaith hynny.

Un o flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2020-21 oedd canolbwyntio ar ddysgu o brofiadau ymarferwyr, gan gydnabod yr holl wersi a oedd i'w dysgu o adolygiadau ac archwiliadau achosion a chydabod yr angen i'r rheini hybu ymarfer a dylanwadu ar ymarfer yn well.

Er i gynnydd ddigwydd yng nghyswllt sawl cam gweithredu, gohiriwyd y gwaith o ddatblygu Fframwaith Dysgu a Gwella. Mae'r fframwaith hwnnw bellach wedi'i sefydlu er mwyn nodi gwaith dysgu amlasiantaeth a hybu gwelliannau i sicrhau canlyniadau gwell i blant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed. Cafodd yr archwiliadau a oedd yn weddill eu cwblhau, gan gynnwys archwiliad amlasiantaeth o gam-drin domestig er mwyn nodi themâu dysgu.

Roedd meysydd gwaith eraill yn cynnwys sefydlu Grŵp Adolygu Hunanladdiadau amlasiantaeth er mwyn craffu ar wybodaeth sydd gan y Bwrdd am achosion yr amheuir eu bod yn hunanladdiadau a gwblhawyd, a reolir dan brotocol y Bwrdd ar gyfer Ymateb ar Unwaith. Mae hynny'n awr yn helpu'r Bwrdd i nodi themâu cyfrannol a ddefnyddir yn sail ar gyfer argymhellion y bwriedir iddynt ei gwneud yn fwy posibl adnabod, atgyfeirio ac ymyrryd wrth symud ymlaen.

Mae dull rhanbarthol o reoli achosion o hunanesgeuluso ymhlith oedolion wedi'i gyflwyno drwy sefydlu Panelau Partneriaeth Hunanesgeuluso amlasiantaeth dan arweiniad y timau Gwasanaethau i Oedolion ym mhob ardal awdurdod lleol. Yr arwyddion cynnar yw bod y rhain yn sicrhau canlyniad cadarnhaol ar gyfer pobl mewn amgylchiadau o'r fath.

Ar 31 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Bwrdd ei Gynllun Blynnyddol a oedd yn egluro ei flaenoriaethau ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn ystod y flwyddyn a oedd i ddod. Dyma'r tair blaenoriaeth strategol drosfwaol:

1. Sicrhau ymateb effeithiol i effaith y pandemig Covid-19
2. Cryfhau cysylltiadau diogelu â phartneriaethau eraill yn y rhanbarth
3. Gwellu'r dull o ymdrin â phryderon am ddiogelu'r cyhoedd.

Blaenoriaeth Strategol 1: Sicrhau ymateb effeithiol i effaith y pandemig Covid-19

Er i ddadansoddiad y Bwrdd o ddata ddangos bod mwy o alw am wasanaethau ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob maes, mabwysiadwyd dull gweithredu'n ôl yr arfer drwy gydol 2021-22, a addaswyd ryw ychydig. Os oedd angen dealltwriaeth well o'r rhesymau dros fwy o alw am wasanaethau, cafodd hynny ei archwilio drwy broses sicrhau ansawdd i alluogi gwasanaethau i addasu a chwilio am atebion er mwyn ymateb yn well.

Ceisiodd ffrwd waith ar gyfer y flaenoriaeth hon sicrhau bod y sawl a oedd yn wynebu'r risg fwyaf yn gallu ailymgysylltu â gwasanaethau. Cafodd dulliau gweithredu arloesol eu datblygu, a gwnaeth asiantaethau'r defnydd gorau posibl o blatfformau rhithwir er mwyn cynorthwyo gyda gwaith cyfathrebu.

Buodd adolygiad o Gynadleddau Amddiffyn Plant yn canolbwyntio ar gydgyhyrchu cynlluniau amddiffyn plant gyda theuluoedd, fel bod safbwyntiau a phrofiadau'n llywio cynlluniau ar gyfer newid er gwell. Cafodd y gwaith hwnnw ei gyfoethogi ymhellach gan adolygiad o'r ddarpariaeth o ran eiriolaeth i rieni sy'n mynychu cynadleddau.

Buodd asiantaethau sy'n gweithio i ddiogelu oedolion yn cynorthwyo darparwyr gofal drwy weinyddu cronfa galedi er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu i oedolion sy'n wynebu risg.

Parhawyd i ganolbwyntio ar ddiogelwch a lles y sawl sy'n byw mewn lleoliadau gofal preswyl, a buodd asiantaethau'n cydweithio â'i gilydd i ddatblygu polisi ar y cyd ar gyfer rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty unrhyw un sy'n mynd i gartref gofal.

Ar draws pob asiantaeth, cydnabyddir yn llawn yr effaith y mae rheoli heriau'r pandemig wedi'i chael ar staff, ac mae nifer o gamau gweithredu wedi'u cymryd i gynorthwyo staff a hybu eu lles. Mae'r gallu i recriwtio a chadw staff hanfodol yn parhau i beri pryder difrifol. Rhannodd pob asiantaeth wybodaeth â'r Bwrdd am yr ymdrechion a wnaed i gynorthwyo staff a rheoli'r heriau dan sylw.

Blaenoriaeth Strategol 2: Cryfhau cysylltiadau diogelu â phartneriaethau eraill yn y rhanbarth

Mae'r flaenoriaeth hon yn adeiladu ar un o flaenoriaethau 2020/21, wrth i'r Bwrdd barhau i gryfhau trefniadau gweithio gyda phartneriaethau eraill. Mae hynny wedi arwain at gydweithredu da ar faterion diogelu â'r Tîm Ymddygiad Gwrthgyrdeithasol, Panel Prevent/Channel, y Tîm Trwyddedu, a Gwasanaethau Cam-drin Domestig yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, sydd wedi arwain at ddulliau mwy cydgysylltiedig o weithio. Er enghraifft, mae Grŵp Cyflawni Rhanbarthol newydd ar gyfer Prevent yn ymwneud â rhoi prawf ar blatfform e-ddysgu newydd ar gyfer Prevent, y bwriedir iddo ddiogelu unigolion a allai gael eu radicaleiddio. Mae'r cyswllt rhwng strwythur Grŵp Ymateb ar Unwaith y Bwrdd, y Grŵp Adolygu Hunanladdiadau, a'r Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad wedi creu cysylltiad strwythurol rhwng y Bwrdd a Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Blaenoriaeth Strategol 3: Gwella'r dull o ymdrin â phryderon am ddiogelu'r cyhoedd

Drwy'r gwaith y mae'r Bwrdd yn ei wneud i gasglu a dadansoddi data, tynnwyd sylw'r Bwrdd at batrwm a oedd yn dod i'r amlwg, sef bod nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn lleihau ond bod nifer yr achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant mewn rhai rhannau o'r rhanbarth yn cynyddu, a arweiniodd at bryder nad oedd nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol ac o gamfanteisio ar blant wedi lleihau mewn gwirionedd ac y gallent yn hytrach fod yn digwydd yn y dirgel. Er bod prosesau ar gyfer rheoli achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi ennill eu plwyf, nodwyd y byddai sylw pellach yn cael ei roi i achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant, camdriniaeth ar-lein, caethwasiaeth fodern, masnachu pobl a radicaleiddio pobl. Erbyn hyn, mae cydweithio rhanbarthol wedi arwain at ddatblygu Strategaeth a Phecyn Cymorth y Bwrdd ynghylch Camfanteisio, er mwyn hybu ymarfer yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n troi'n oedolion, i ddechrau, ond gyda'r bwriad o symud ymlaen i ddefnyddio'r strategaeth gyda phob oedolyn. Mae'r Bwrdd yn bwriadu parhau i ddadansoddi data wrth weithio'n unol â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Themâu diogelu

Mae dysgu o ymarfer wedi cynorthwyo'r Bwrdd i nodi meysydd ar gyfer gwella. Mae hynny wedi digwydd drwy archwiliadau thematig ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant.

Roedd yr archwiliadau thematig yn ymwneud ag 'Achosion lle'r oedd angen defnyddio eiriolaeth neu gynnwys aelodau'r teulu (oedolion)' ac 'Archwiliad awdurdodau lleol o asesiadau cymesur (plant)' ac maent wedi arwain at ystyried sawl eitem er mwyn hybu ymarfer, a nodir yn yr Adroddiad Blynnyddol.

Cyhoeddodd y Bwrdd ddau Adolygiad Ymarfer Plant, dau Adolygiad Ymarfer Oedolion ac, ar y cyd â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, dau Adolygiad Dynladdiad Domestig. Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn nodi'r dysgu a ddigwyddodd yn dilyn pob un o'r adolygiadau unigol hynny, yn ogystal â'r camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad.

Ym mis Hydref 2021, cafodd y Tîm Diogelu Cenedlaethol (yn GIG Cymru) ei gomisiynu gan y Bwrdd i gynnal adolygiad cyflym annibynnol o drefniadau diogelu amlasiantaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd hynny'n dilyn pum marwolaeth annisgwyl ymhlith plant, nad oedd unrhyw gysylltiad rhyngddynt. Cafodd yr adolygiad annibynnol cynnar hwn ei gwblhau ar wahân i'r Adolygiadau Ymarfer o'r achosion, a oedd wedi'u cynllunio. Roedd adroddiad terfynol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2021 yn cynnwys cyfres o argymhellion a arweiniodd at gymryd camau gweithredu i wella trefniadau diogelu amlasiantaeth.

Gwybodaeth a dysgu

Caiff hyfforddiant i staff ei gydgyssylltu a'i gyflwyno gan adrannau hyfforddiant yr awdurdodau lleol a'i fonitro gan is-grŵp y Bwrdd ar gyfer hyfforddiant a dysgu. Caiff ei ategu erbyn hyn hefyd gan Fframwaith Dysgu a Gwella sydd newydd gael ei gytuno. Er bod data ynghylch hyfforddiant yn dangos gostyngiad o gymharu â data cyn Covid, llwyddwyd i symud yn gyflym i ddysgu o bell a dysgu'n ddigidol drwy fuddsoddi mewn adnoddau ar-lein ar gyfer dysgu mewn ystafelloedd dosbarth rhithwir, prynu caledwedd cyfrifiadurol i'w roi ar fenthyg i staff nad oedd ganddynt ffordd arall o fynd ar-lein, a darparu cymorth i'r sawl yr oedd angen iddynt ddatblygu sgiliau llythrennedd digidol. O ganlyniad i hynny, a chyflleoedd i ddysgu wyneb yn wyneb os oedd modd, llwyddwyd i gynnal 3,838 o weithgareddau dysgu gydag amryw aelodau o staff, gwirfoddolwyr a gofalwyr maeth.

Cafodd hyfforddiant ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ei ddatblygu drwy gydol y flwyddyn. O ganlyniad i grant hyfforddiant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, llwyddwyd i ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant ychwanegol i staff, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ynghylch camfanteisio; chwilfrydedd proffesiynol a chydymffurfio ffug; atal hunanladdiad; a hybu lles staff. Darparodd Fforymau Ymarferwyr Amlasiantaeth gyfleoedd pellach i staff ddysgu gwersi o achosion penodol. Cyflwynodd asiantaethau partner adroddiadau i'r Bwrdd ynghylch yr hyfforddiant yr oedden nhw hefyd wedi'i ddarparu ar gyfer eu staff.

Buodd gweithgareddau yn ystod yr Wythnos Ddiogelu yn darparu hyfforddiant i staff ac yn darparu sesiynau addysg a chodi ymwybyddiaeth i bobl ifanc, rhieni/gofalwyr a'r cyhoedd. Roedd y rhaglen yn ymdrin ag ystod o faterion diogelu a oedd yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant, iechyd meddwl, cam-drin domestig, ac achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant. Buodd gweithdai ar atal hunanladdiad a hunan-niwed yn ystyried mentrau cenedlaethol a lleol, ac roeddent yn gyfle i'r sawl a oedd yn bresennol rwydweithio â'i gilydd a thrafod cyfleoedd atal.

Caiff gwefan y Bwrdd ei diweddarau'n rheolaidd a'i defnyddio i rannu adroddiadau a rhannu gwersi sydd i'w dysgu yn dilyn adolygiadau ac archwiliadau. Mae platfformau ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys tudalen Facebook a chyfrif Twitter y Bwrdd, yn parhau i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu a hyrwyddo ymgyrchoedd diogelu.

Darparu adnoddau ar gyfer y Bwrdd Diogelu

Mae Adroddiad Blynyddol y Bwrdd yn darparu gwybodaeth am ei wariant yng nghyswllt staff a safleoedd, ac am wariant ychwanegol nad oes manylion wedi'u nodi yn ei gylch. Caiff y gost hon ei rhannu rhwng yr asiantaethau partner ar sail fformiwla benodedig ar gyfer cyfraniadau ariannol.

Cyfranogiad a chynnwys pobl

Cafodd digwyddiadau partneriaeth a digwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion eu cynnal mewn ardaloedd awdurdod lleol ar draws y rhanbarth ac ar y cyd â phartneriaethau eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys y modd y gwnaeth Bridgend Youth Matters ymgysylltu â 690 o bobl ifanc ar y strydoedd mewn ardaloedd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd; ac ymgyrch 'snip it in the bud' ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, lle mae salonau trin gwallt a barbwyr yng Nghwm Taf Morgannwg wedi cael cymorth i adnabod arwyddion o gam-drin domestig ac wedi cael cymorth i helpu i ddatgelu achosion o gam-drin domestig, drwy gyfeirio pobl at wasanaethau lleol. Yn Rhondda Cynon Taf mae gwefan ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi'i chydgynhyrchu ac mae platfform rhyngweithiol ar gyfer gwybodaeth, dysgu a chymorth wedi'i greu i'w ddefnyddio gan bobl ifanc. Gofynnir am farn plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal er mwyn datblygu Fy Llais I-Fy Adolygiad I, sef y dogfennau a ddefnyddir i gasglu eu barn tra byddant yn derbyn gofal; ac ym Merthyr Tudful gofynnodd Gwasanaethau Plant am farn rhieni a oedd yn mynychu cynadleddau amddiffyn plant, drwy gynllun peilot a gomisiynwyd er mwyn mesur effaith y cynnig o eiriolaeth i rieni. Ar sail yr adborth cadarnhaol, cafodd cyllid ei glustnodi ar gyfer prosiect 12 mis a fyddai'n cynnig eiriolaeth i'r holl rieni a'r holl bobl â chyfrifoldeb rhiant sy'n mynychu Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant. Mae enghreifftiau eraill o gyfranogiad a gwaith ymgysylltu wedi'u nodi yn yr Adroddiad Blynyddol.

Adroddiad Blynyddol

Mae [adroddiad blynyddol y Bwrdd](#) yn rhestru'r aelodau i gyd ac yn nodi eu cyfraniad at ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg o niwed yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gwent



Diogelu Gwent Gwent Safeguarding

Cyflwyniad

Mae Byrddau Diogelu Gwent yn ymdrin ag ardaloedd awdurdod lleol Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy ac yn wasanaethu poblogaeth o 587,700.

Mae partneriaid diogelu rhanbarthol yng Ngwent yn cynnal dau Fwrdd ar wahân ar gyfer oedolion a phlant er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn y boblogaeth yn cael blaenoriaeth briodol a chyfartal. Er hynny, mae'r ddau Fwrdd yn cydweithio'n agos iawn â'i gilydd ac yn sicrhau bod eu cyfarfodydd yn digwydd y naill ar ôl y llall ar yr un diwrnod, a bod yna agenda fusnes a rennir sy'n ymdrin â materion cyffredin.

Yn anad dim, mae Byrddau Gwent yn rhannu **“Un Weledigaeth Gyffredinol ar y Cyd: Sicrhau bod plant ac oedolion, yng Ngwent, yn cael eu diogelu”**. Yn ei thro, caiff y weledigaeth honno ei hategu gan y canlynol:

“Tair Blaenoriaeth Strategol ar y Cyd:

- » *Amddiffyn yn well blant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio.*
- » *Amddiffyn yn well blant ac oedolion rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol.*
- » *Gwella a chynnal effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.”*

Mae Cyd-gynllun Strategol 3 blynedd y Byrddau i hybu'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn wedi cyrraedd ei drydedd flwyddyn adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Caiff y blaenoriaethau strategol hyn eu symud yn eu blaen gan gyfuniad gweithredol o bartneriaid rhanbarthol statudol ac anstatudol, drwy ystod o is-grwpiau amlddisgyblaethol ac amlasiantaeth hynod o effeithiol a chynhyrchiol sy'n cael eu cynorthwyo gan Uned Fusnes y Byrddau sydd â digon o adnoddau. Mae presenoldeb yr aelodau yng nghyfarfodydd y Byrddau bob chwarter yn adlewyrchu lefel uchel o ymrwymiad gan bob partner.

Cyflawni'r Cynllun Blynyddol

Mae'r adolygiad hwn o Gynllun Blynyddol Byrddau Rhanbarthol Gwent, fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, yn ceisio cyflwyno darlun cytbwys o gynnydd y Byrddau ar sail eu cyd-flaenoriaethau strategol; mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud erbyn diwedd blwyddyn 2 Cyd-gynllun Strategol y Byrddau. Mae'r adolygiad yn dilyn patrwm tebyg i'r adolygiadau a gynhaliwyd yn flaenorol gan aelod cynrychiadol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sy'n cadw mewn cysylltiad â'r ddau Fwrdd yn ystod blwyddyn benodol ac sy'n mynychu eu cyfarfodydd. Cafodd yr adolygiad ei lunio ar ôl darllen Adroddiad Blynyddol y ddau Fwrdd ar gyfer y flwyddyn 2021-22 ac ar ôl arsylwi cyfarfodydd y ddau Fwrdd yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, wrth ddarllen Adroddiad Blynyddol Byrddau Gwent ar gyfer y flwyddyn 2021-22 o safbwynt allanol, ni ellir gwerthfawrogi'n llawn yr hyn sydd ynddo heb gyfeirio'n bendant iawn at effaith y pandemig Covid-19, a oedd yn bwysicach yn ystod y flwyddyn 2021-22 nag yr oedd yn ystod y cyfnod blaenorol, pan oedd Covid yn ffenomenon mwy diweddar.

Yn y cyd-destun hwn mae'n werth nodi bod y ddau Fwrdd, fel yn ystod y flwyddyn flaenorol, pan nad oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bosibl oherwydd y pandemig, wedi cynnal cyfarfodydd rhithwir misol o'r Tîm Gweithredol yn ystod rhan o'r flwyddyn (yn hytrach na chyfarfodydd llawn o'r Byrddau bob chwarter) er mwyn sicrhau parhad busnes ac, yn bwysicaf oll, sicrhau goruchwyliaeth fwy manwl o gapasiti'r gweithlu wrth ymateb i'r pandemig ac o batrymau a oedd yn newid o ran bod yn agored i niwed.

Ar y naill law, ar ôl sefydlu'r trefniadau wrth gefn effeithiol a threfnus hyn yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd y ddau Fwrdd mewn sefyllfa dda i sicrhau parhad o ran ffocws ar eu tair blaenoriaeth graidd, cynnal momentwm gweithgarwch a rhoi mesurau ar waith i'w gwneud yn bosibl monitro risgiau presennol a newydd yng nghyd-destun proffil y pandemig, a oedd yn newid yn sydyn; at ei gilydd, mae'r ddau Fwrdd wedi gallu parhau i weithredu fel endid effeithiol. Ar y llaw arall, fel sy'n wir am rannau eraill o'r wlad, nid oes neb yn deall yn iawn eto beth yw maint, dyfnder a hirhoedledd effaith Covid ar unigolion a chymunedau, yn enwedig y sawl sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r Bwrdd yn pryderu hefyd am yr effaith ychwanegol y bydd yr argyfwng costau byw cynyddol yn ei chael ar yr un unigolion.

Mae'r ddau Fwrdd wedi nodi'r cynnydd canlynol, yn benodol yng nghyswllt pob un o'u tair blaenoriaeth:

Amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio – roedd y gweithgarwch yn cynnwys:

- » Comisiynu gweithgarwch arbenigol i godi ymwybyddiaeth o rywedd ac o gamfanteisio ac ymddygiad troseddol ac ymddygiad gangiau, gyda'r bwriad o ganolbwyntio ar oedolion yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

- » Parhau i oruchwyllo'n systematig unrhyw achosion o gamfanteisio ar blant, gan ddefnyddio trefniadau model amlasiantaeth y rhanbarth ar gyfer Camfanteisio ar Blant.
- » Cymryd rhan mewn prosiect peilot a noddwyd gan y Swyddfa Gartref er mwyn rhoi prawf ar benderfyniadau datganoledig a hybu penderfyniadau o'r fath ynghylch plant sy'n ddioddefwyr caethwasiaeth fodern; mae'r cynllun presennol wedi'i ganoli yn y Swyddfa Gartref yn y DU, lle caiff penderfyniadau eu gwneud i drin plant fel dioddefwyr yn hytrach nag fel troseddwr yn unig; gall y penderfyniadau hynny gymryd hyd at 18 mis, sy'n andwyol i'r plant dan sylw. Ar y llaw arall, nodir bod tystiolaeth gynnar o'r prosiect peilot hwn ar draws pob un o'r pum ardal awdurdod lleol ledled ardal Gwent (a Chaerdydd) ac mewn wyth awdurdod lleol yn Lloegr yn dangos bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt o lawer ac yn fwy effeithiol o lawer (cyn pen tua 90 diwrnod). Credir ei bod yn debygol y bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith yn ehangach ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr pan ddaw'r prosiect peilot i ben ym mis Mawrth 2023.
- » Comisiynu gweithdai gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, er mwyn gwella dealltwriaeth ymarferwyr o ddangosyddion ac o ymatebion effeithiol.
- » Datblygu tudalen benodol ar y we i hybu'r gwaith o gyflwyno'r diwygiadau sydd ar ddod o ran Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
- » Lansio ymgyrch dysgu am gyfnod byr, er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddiogelu cyd-destunol.
- » Datblygu deunyddiau, gan gynnwys pecyn archwilio, er mwyn cynorthwyo mentrau sy'n mynd i'r afael â chamdriniaeth ariannol, yn enwedig yng nghyd-destun Covid-19.

Amddiffyn plant ac oedolion rhag esgeulustod, niwed corfforol, emosiynol, rhywiol ac ariannol

- » Dosbarthu canllaw rhanbarthol ynghylch Rheolaeth drwy Orfodaeth.
- » Cyflwyno canllawiau rhanbarthol sydd newydd gael eu datblygu ynghylch Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, sy'n deillio o ddysgu rhanbarthol yn dilyn Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- » Cyhoeddi Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth rhanbarthol ar gyfer ymdrin ag achosion o gam-drin domestig er mwyn diogelu oedolion sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.
- » Cyflwyno dangosfwrdd data ynghylch esgeulustod er mwyn cadarnhau nifer yr achosion yn y rhanbarth. Mae hynny'n rhan o brosiect tymor canolig parhaus sy'n ceisio datblygu ystod o ddulliau amlasiantaeth o fesur effeithiolrwydd diogelu.

Gwella/Cynnal effeithiolrwydd y Bwrdd Rhanbarthol

- » Cyflwyno deunyddiau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth er mwyn hybu'r broses barhaus o roi Gweithdrefnau Cymru Gyfan ar waith.
- » Gwneud gwaith parhaus gyda rhaglen yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl er mwyn sicrhau bod adnoddau / capasiti priodol ar gael yn barod ar gyfer ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y dyfodol yn nifer yr adolygiadau diogelu.

Themâu diogelu sy'n deillio o ymarfer

- » Wrth fyfyrio ar ddiwedd blwyddyn 2 Cynllun Strategol y Bwrdd, mae'r Bwrdd wedi bod yn ymwybodol o effaith fawr iawn Covid-19 yn ogystal â phryderon cynnar bod costau byw fel pe baent yn gwaethygu cyfnod sydd eisoes yn niweidiol ar gyfer poblogaeth y Bwrdd a'i gymunedau. Gyda'i gilydd, ymddengys fod effeithiau Covid a chostau byw yn thema drosfwaol sy'n cysylltu â'r themâu eraill a nodwyd yn Adroddiad Blynnyddol y Bwrdd. Ym marn y ddau Fwrdd, mae'r ddau ffactor hyn wedi cyfuno â'i gilydd i waethygu risgiau sylfaenol neu risgiau a oedd yn bodoli'n barod.
- » Er enghraifft, mae'r Bwrdd wedi sôn am bwysigrwydd **cydnerthedd** yn wyneb argyfwng cenedlaethol, a'r graddau y mae hynny wedi cyfuno â ffactorau sylfaenol parhaus o ran swyddi gwag i greu amgylchedd gweithredu sy'n heriol iawn, yn enwedig ar lefel ymarferwyr.
- » Unwaith eto, yng nghyswllt cydnerthedd, un peth sy'n peri pryder i'r Bwrdd yw'r risg uwch sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n effeithio ar **les meddwl** plant ac oedolion, "...a bod cysylltiad anorfod rhwng hyn yn aml a gallu unigolyn i feithrin gwydnwch a chynnal lles drwy gyfnodau o straen ac argyfwng." Ymddengys fod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cynnydd a welwyd mewn pryderon am hunanladdiad a hunan-niwed, ac mae'r Bwrdd wedi bod yn datblygu'n rhagweithiol ystod o fentrau i gryfhau ymateb ymarferwyr a phartneriaid.
- » Yn yr un modd, nododd y Bwrdd yr angen i ystyried y graddau yr oedd **esgeulustod** yn digwydd yng nghyd-destun y pandemig ac, yn fwy diweddar, yng nghyd-destun pwysau o ran costau byw.

Gwybodaeth a dysgu

Fel yn ystod blyneddol blaenorol, mae'r ddau Fwrdd wedi cynnal rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant, sy'n adlewyrchu gwaith diogelu craidd ac anghenion mwy cyfoes ac sydd wedi cyrraedd cynulleidfa niferus, a oedd yn cynnwys darparwyr gwasanaeth a gwirfoddolwyr. At ei gilydd, mae 1,180 o unigolion wedi elwa o hyfforddiant a gyflwynwyd mewn 73 o sesiynau ar wahân.

Roedd y gwaith a wnaed yn cynnwys hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn cydymffurfio'n llawn â Gweithdrefnau Diogelu Cymru; lansio gwefan newydd a oedd yn ei gwneud yn bosibl symleiddio'r cynnwys; treialu a lansio Cyfnewidfa Wybodaeth wythnosol a llythyr newyddion chwarterol er mwyn darparu dull mwy hwylus o gyfathrebu, yn dilyn adborth gan bartneriaid; sefydlu ymgyrchoedd dysgu am gyfnodau byr er mwyn rhannu adnoddau; hwyluso sesiynau codi ymwybyddiaeth o bynciau a oedd yn cynnwys gangiau a chamfanteisio troseddol; ymdrin â materion yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niwed; diogelu cyd-destunol; trawma mechnïol a lles; a cham-drin domestig ymhlith pobl hŷn.

Pwerau Adran 137

Yn ystod y flwyddyn 2021/2022, ni wnaeth Byrddau Diogelu Gwent ddefnyddio eu pwerau Adran 137 i gael gafael ar wybodaeth.

Dysgu'n ymwneud ag Adolygiadau Ymarfer Plant/Adolygiadau Ymarfer Oedolion/Adolygiadau Dynladdiad Domestig

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y ddau Fwrdd y canlynol:

Un prosiect peilot yn ymwneud ag Adolygiadau Dynladdiad Domestig-Adolygiadau Ymarfer Oedolion, a arweiniodd at ddysgu sut y gallai proses Adolygiadau Dynladdiad Domestig gyd-fynd yn agosach â methodoleg Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac arwain at broses lai beichus i deuluoedd ac at waith dysgu mwy prydlon i ymarferwyr.

Cyhoeddi un Adolygiad Ymarfer Oedolion a fuodd hefyd yn ystyried gweithredu'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion cyntaf yng Nghymru, a arweiniodd at ddiwygio **protocol y rhanbarth ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion** yn llwyr.

Yn ystod 2021/2022, cwblhaodd a dosbarthodd Byrddau Rhanbarthol Gwent waith dysgu'n dilyn nifer o adolygiadau a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth. Mae'r gwaith dysgu sy'n deillio o adolygiadau a gyhoeddwyd yn cael ei ymgorffori yn rhaglen waith y Byrddau.

Darparu adnoddau ar gyfer y Byrddau Diogelu

Caiff y Byrddau eu hariannu gan gyfraniadau gan asiantaethau partner statudol sydd wedi cytuno ar y fformiwla ariannu fel y nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1'.

Nid yw'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys manylion y cyfraniadau ond mae'n nodi'r costau yr aethpwyd iddynt er mwyn cynnal yr Uned Fusnes a'r trefniadau ar gyfer gweithdai a chyfarfodydd. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys cyllideb, fel y cyfryw.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cydnabod cyfraniadau sylweddol partneriaid y Bwrdd mewn nwyddau a gwasanaethau.

Cyfranogiad a chynnwys pobl

Nid yw'n syndod nodi bod cyfyngiadau Covid-19 wedi llesteirio gwaith ymgysylltu uniongyrchol ac wyneb yn wyneb yn sylweddol wrth geisio ymgynghori a chysylltu â chymunedau buddiant. Yng ngeiriau'r ddau Fwrdd eu hunain – *"Drwy gydol y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r pandemig wedi cyflwyno heriau sylweddol i fyrddau diogelu wrth geisio estyn allan at eu dinasyddion."*

Wedi dweud hynny, mae'r Byrddau wedi achub ar y cyfle, drwy'r is-grŵp ar gyfer Ymgysylltu a Chyfathrebu, i ymgysylltu â phob partner wrth ddatblygu strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu, a oedd yn cynnwys camau penodol i integreiddio ymgysylltu a chyfathrebu yng ngwaith pob is-grŵp fel mater o drefn.

O safbwynt ymgysylltu â phartneriaid, mae Adroddiad Blynyddol y ddau Fwrdd yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad gan bob partner bob amser, a adlewyrchir mewn ystod o raglenni gwaith a rhaglenni datblygu prysur dros ben.

Adroddiad Blynyddol

Mae [adroddiad blynyddol y Byrddau](#) yn rhestru'r aelodau i gyd ac yn nodi eu cyfraniad at ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg o niwed yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru



CYSUR

Cyflwyniad

Caiff rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ei wasanaethu gan ddau Fwrdd Diogelu sy'n perthyn i'w gilydd: CWMPAS ['Cydwethio a Chynnal Partneriaeth wrth Ddiogelu Oedolion' yn Gymraeg/'Collaborative Working & Maintaining Partnership in Adult Safeguarding' yn Saesneg] a CYSUR ['Diogelu Plant a Phobl Ifanc: Uno'r Rhanbarth' yn Gymraeg/'Child & Youth Safeguarding, Unifying the Region' yn Saesneg]. Mae Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn gweithio gyda'i gilydd fel Bwrdd Diogelu Rhanbarthol trosfwaol i fonitro a gwella gweithgarwch diogelu rhanbarthol ar draws y canolbarth a'r gorllewin. Caiff seilwaith ei rannu gan y ddau Fwrdd a cheir un Uned Fusnes. Caiff aelodau'r ddau Fwrdd, gan gynnwys pob partner statudol, eu rhestru yn Adroddiad Blynyddol y Byrddau.

Cyflawni'r Cynllun Blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos ystod o weithgarwch a chyflawniadau a oedd yn bosibl drwy weithio mewn modd amlasiantaeth a chydweithredu mewn partneriaeth. Mae'r asiantaethau statudol hefyd yn darparu disgrifiad o'u cyfraniadau unigol nhw i waith y Bwrdd. Mae CADW, sef y Bwrdd Iau Rhanbarthol sydd wedi hen ennill ei blwyf, wedi dangos ymrwymiad a brwdfrydedd neilltuoel unwaith eto wrth gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae'r rheini fel a canlyn:

1. Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol:

Gwella gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â phlant, oedolion sy'n wynebu risg, grwpiau agored i niwed, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau. Roedd gweithgarwch yn cynnwys y canlynol:

- » Cwblhau a chyhoeddi polisïau a llwybrau rhanbarthol er mwyn rhoi arweiniad i staff.
- » Ymgysylltu ag oedolion sy'n wynebu risg a gweithredu Polisi a Gweithdrefn Amlasiantaeth y Byrddau ar gyfer Ymddygiad Peryglus (sy'n cynnwys hunanesgeuluso a chronni pethau).
- » Hyrwyddo ymgyrchoedd a hybu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o faterion, gan gyrraedd cynulleidfaoedd niferus drwy gynnwys a roddwyd ar y cyfrifon Facebook a Twitter sydd wedi ennill eu plwyf. Mae cyfrif Instagram newydd er mwyn cyrraedd pobl ifanc, a sianel YouTube hefyd, yn darparu platfformau ychwanegol ar gyfer ymgysylltu.
- » Datblygu'r Bwrdd Iau Rhanbarthol, a chynhyrchu animeiddiad/fideo hyfforddiant ar gyfer hyfforddiant amlasiantaeth i ymarferwyr.

2. Dysgu thematig a datblygu arfer gorau:

Sicrhau agwedd thematig at ddysgu a gwerthuso effaith barhaus gwaith y Bwrdd dros amser, gan alluogi themâu allweddol a nodwyd i lywio blaenoriaethau strategol. Dal i ddatblygu a rhannu arfer gorau. Roedd gweithgarwch yn cynnwys y canlynol:

- » Grwpiau Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion yn crynhoi'r hyn sydd i'w ddysgu o brosesau adolygu er mwyn llywio hyfforddiant. Parhau i ddosbarthu briffiau 7 munud i ymarferwyr am amrywiaeth o faterion diogelu.
- » Hyfforddiant ynghylch diogelu wedi'i wneud yn fwyfwy hygyrch drwy gyflwyno platfformau rhithwir ychwanegol ac ystafelloedd adnoddau. Buodd yr Wythnos Ddiogelu yn canolbwyntio ar themâu dysgu a oedd yn arbennig o arwyddocaol yn ystod y pandemig.

- » Cyflwyno Model Ymateb ar Unwaith er mwyn sicrhau cymorth i unigolion a allai fod yn wynebu risg uwch yn dilyn achos o hunanladdiad yn eu rhwydwaith neu ymhlith eu cyfoedion.

3. Atgyfnerthu'r gweithlu a rheoli risg:

Datblygu a gweithredu mentrau strategol a fydd yn gwella'r gallu i gadw gweithwyr yn y gweithlu gofal cymdeithasol a recriwtio gweithwyr i'r gweithlu hwnnw; a nodi risgiau sylweddol eraill ym maes diogelu ac ymateb iddynt.

- » Cafodd adolygiadau o lefelau staffio eu cynnal er mwyn gallu llunio cynlluniau clir ar gyfer recriwtio a chadw staff.
- » Cafodd ffurflenni atgyfeirio amlasiantaeth rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion eu hadolygu er mwyn ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu cyflwyno ar-lein gan ymarferwyr sy'n adrodd ynghylch pryderon.

4. Arweinyddiaeth, amlygrwydd a her:

Dal i ddarparu arweinyddiaeth amlwg a dylanwadu ar yr agenda genedlaethol yng nghyswllt blaenoriaethau Canolbarth a Gorllewin Cymru ym maes diogelu, a galluogi her adeiladol ac ymgysylltu gweithgar gan bob un o asiantaethau ein partneriaeth.

- » Gwnaed cyfraniadau sylweddol i feysydd gwaith cenedlaethol a oedd yn cynnwys datblygu deddfwriaeth, polisi a chanllawiau.

5. Ymateb i COVID-19 ac adferiad ar ôl

Covid-19: Monitro effaith y pandemig Covid-19, ymateb i unrhyw broblemau sy'n codi, a chydgyssylltu dull amlasiantaeth rhanbarthol o ymdrin â'r adferiad.

Cydnabyddir yr heriau a oedd yn gysylltiedig ag ail flwyddyn pandemig, ond mae'r holl systemau a'r holl strwythurau angenrheidiol i reoli'r effeithiau wedi'u rhoi ar waith. Roedd hynny'n cynnwys gweithredu polisiau a fframweithiau rhanbarthol, er enghraifft Proses Ranbarthol Uwchgyfeirio yng nghyswllt Covid-19 a Pholisi Rheoli Risg ar gyfer Cartrefi Gofal a Chartrefi Nyrsio, a dogfennau ynghylch Trothwyau Diogelu yng nghyswllt Covid-19.

Themâu diogelu

Mae Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Adrodd y Byrddau, sy'n cynnwys set ddata gynhwysfawr ynghyd ag amserlen archwilio leol a rhanbarthol thematig, wedi parhau i hybu dealltwriaeth y Byrddau o ymarfer diogelu proffesiynol.

Cafodd y themâu a oedd yn deillio o'r adolygiadau ymarfer achosion eu hystyried er mwyn llywio rhaglenni hyfforddiant a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Roeddent yn cynnwys:

- » Yr angen i gynorthwyo ymarferwyr i arfer chwilfrydedd proffesiynol a bod yn effro i achosion o gydymffurfio ffug
- » Yr angen i hybu ymarfer yng nghyswllt deddfwriaeth ynghylch galluedd meddyliol, yn enwedig mewn achosion lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymddwyn yn beryglus
- » Atal hunanladdiad
- » Effaith camddefnyddio alcohol a sylweddau ar ddiogelu
- » Marwolaethau ymhlith babanod, sy'n ymwneud â chysgu'n ddiogel
- » Yr angen i rannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau.

Mae themâu cenedlaethol wedi parhau i ysgogi gweithgareddau'r Bwrdd, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- » **Y strategaeth ranbarthol ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol – Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach.** Mae cryn dipyn o gyllid wedi'i sicrhau a'i ddefnyddio i hybu capasiti darparwyr gwasanaeth ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sydd wedi cynyddu'r llety sydd ar gael ac wedi sicrhau gwelliannau i ganolfannau lloches a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau wedi darparu cyllid i gefnogi'r dull ranbarthol o gyflwyno rhaglenni ymyriadau ar gyfer tramgwyddwyr, ac mae cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn bosibl cael tri safle arall ar draws y ranbarth ar gyfer darparu tystiolaeth o bell. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu enghreifftiau pellach o gynnydd yn y maes gwaith hwn.
- » Aeth y **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol** yn ei flaen drwy drefniadau hyrwyddo'r ymgyrch, hyfforddiant a digwyddiadau mewn gwahanol leoliadau gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, trwy sesiynau briffio staff a thrwy rannu adnoddau megis Cadw'n Ddiogel Ar-lein yn eang.
- » Mae camau gweithredu a gymerwyd i atal ac adnabod achosion o **gamfanteisio ar blant a phobl ifanc** yn cynnwys dull strategol o weithredu er mwyn ystyried plant sy'n wynebu risg o ddioddef ffurfiau ehangach ar gamfanteisio, sy'n cynnwys camfanteisio troseddol. Mae set ddata gynhwysfawr yn cael ei datblygu er mwyn hybu a datblygu'r gwaith hwn ymhellach.
- » Mae **iechyd meddwl, hunan-niwed a hunanladdiad** yn parhau'n flaenoriaeth uchel i'r Bwrdd. Mae cydgysylltydd ranbarthol yn hybu'r Strategaeth Genedlaethol Atal Hunanladdiad, Siarad â fi 2, ac mae'r model Ymateb Cyflym ar gyfer hunanladdiadau a amheuir yn achos plant ac oedolion wedi'i roi ar waith.

- » **Rhoddwyd sylw manwl i farwolaethau'n ymwneud â chyffuriau ac i orddosau nad oeddent yn angheuol**, a chodwyd ymwybyddiaeth o themâu a thueddiadau.
- » Mae nifer barhaus a chynyddol o **farwolaethau y gellid eu hatal sy'n ymwneud â babanod yn cyd-gysgu** â'u rhieni wedi dod i'r amlwg drwy'r Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDiC) ar draws y ranbarth. Mae hynny wedi ysgogi camau cenedlaethol i ystyried a datblygu canllawiau ranbarthol pellach i rieni a gofawyr.
- » Mae'r her sy'n ymwneud â **llety priodol annigonol ar gyfer y sawl sydd ag anghenion cymhleth** yn cael sylw grŵp gorchwyl a gorffen arbenigol.
- » **Gan groesawu'r agenda atal, cafodd Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru** ei gefnogi drwy ymgyrchoedd a thrwy hyrwyddo adnoddau Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth a dysgu

Mae gwybodaeth gynhwysfawr am y Bwrdd, Cynlluniau Blynyddol, Adroddiadau Blynyddol ac Adolygiadau Ymarfer a gyhoeddwyd, ynghyd ag ystod o adnoddau i ymarferwyr, ar gael ar wefan a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys manylion am gynadleddau, digwyddiadau a hyfforddiant a gyflwynwyd drwy'r Bwrdd ac a ddarparwyd gan arbenigwyr yn y maes ac asiantaethau partner. Mae cyfres o adnoddau a deunyddiau hyfforddiant ynghylch chwilfrydedd proffesiynol i ymarferwyr wrthi'n cael ei datblygu.

Mae ffilm wedi'i hanimeiddio sydd wedi'i datblygu a'i chynhyrchu gan y Bwrdd Diogelu lau yn barod yn awr i gael ei lansio, a bydd yn cael ei chynnwys mewn rhaglenni hyfforddiant er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i gyfathrebu'n sensitif ac yn effeithiol â phlant a phobl ifanc.

Yn ystod yr Wythnos Genedlaethol Diogelu, llwyddodd rhaglen ranbarthol o ddigwyddiadau i ddenu cynulleidfau eang. Llwyddodd tudalen Facebook y Bwrdd i ddenu dros 8,000 o drawiadau ar un diwrnod yn unig, a chafwyd dros 17,000 o argraffiadau ar Twitter. Mae cyfrif Instagram newydd a sianel YouTube ar gyfer sesiynau briffio a chyflwyniadau hefyd yn cael eu gweld gan gynulleidfau eang.

Darparu adnoddau ar gyfer y Bwrdd Diogelu

Mae pob un o bartneriaid statudol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyfrannu amser ac arbenigedd yn ogystal ag arian i redeg y Byrddau.

Cyfranogiad a chynnwys pobl

Cynhaliodd aelodau ifanc CADW: Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau ystod o weithgareddau a oedd yn cynnwys datblygu a chynhyrchu animeiddiad i fynegi barn plant a phobl ifanc ynghylch sut y gall ymarferwyr eu cynorthwyo'n well a rhyngweithio'n well â nhw. At hynny, mae rhai enghreifftiau o weithgareddau ar draws ardaloedd lleol yn cynnwys y canlynol:



Mae **Llysgenhadon Diogelu Ieuencid Powys** eleni wedi bod yn canolbwyntio ar waith hyrwyddo gweithredol ac wedi nodi amcanion allweddol sy'n

ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; diogelwch gartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned; a phontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn.



Dosbarthodd **'Sêr Saff' Ceredigion a Gwasanaeth Ieuencid Ceredigion** Becynnau Iechyd a Lles Sêr Saff i blant a phobl ifanc sy'n byw yng

Nggheredigion, er mwyn eu helpu i hybu eu hiechyd a'u lles a sicrhau bod ganddynt wybodaeth i allu gwneud hynny.

Mae calendr Sêr Saff yn cynnwys dyddiadau diwrnodau codi ymwybyddiaeth sy'n berthnasol i bobl ifanc, am themâu sy'n cynnwys iechyd meddwl a chamfanteisio, ac mae'n cynnwys lluniau o olygfeydd godidog Ceredigion yn y cefndir, a dynnwyd tra buodd y bobl ifanc yn treulio amser yng nghanol byd natur yn ystod y cyfnod clo.



Mae **Cyngor Ieuencid Sir Gâr** yn dal i redeg y cynllun Llysgenhadon Cymunedol Hawliau Plant er mwyn codi ymwybyddiaeth

o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae aelodau'r Cyngor Ieuencid yn cymryd rhan yn Senedd Ieuencid Cymru a Senedd Ieuencid y Deyrnas Unedig.



Buodd **Gwarchodwyr Diogelu Iau Sir Benfro** yn gweithio gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Plant eleni i ddatblygu Siarter Plant a Phobl Ifanc, sef addewid Gwasanaethau Plant i blant a phobl ifanc ynghylch sut

y byddant yn cael eu trin pan fydd ganddynt weithiwr cymdeithasol. Bydd yn helpu plant a phobl ifanc i benderfynu a yw'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn diwallu eu hanghenion ac yn ystyried eu safbwyntiau a'u profiad go iawn.

Adroddiad Blynnyddol

Mae adroddiad blynnyddol y Byrddau yn rhestru'r aelodau i gyd ac yn nodi'r modd y maent wedi cydweithredu er mwyn diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg o niwed yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru



Cyflwyniad

Mae Byrddau Diogelu Plant a Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn ymdrin â chwe ardal awdurdod lleol: Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae heriau sylweddol yn deillio o'r ffaith eu bod yn gwasanaethu rhanbarth mor fawr, ond mae'r Bwrdd a'i aelodau yn dal yn falch o'r ethos cryf o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'i sefydlu ar lefel bwrdd o uwch-swyddogion gweithredol ac ar lefel is-grwpiau.

Mae amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg a'u hatal rhag profi niwed, a hybu lles pobl y gogledd gan eu galluogi i gyflawni canlyniadau gwell, yn parhau'n ganolog i waith y Bwrdd.

Cyflawni'r Cynllun Blynyddol

Cyfarfu'r Bwrdd Oedolion a'r Bwrdd Plant ar wahân dair gwaith ac â'i gilydd unwaith yn ystod y flwyddyn. At hynny, cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Busnes ar y cyd er mwyn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a hunanasesu cynnydd y Byrddau.

Cytunwyd ar dair blaenoriaeth strategol:

Blaenoriaeth Strategol 1. Parhau i hybu ymwybyddiaeth a chydymffurfio yng nghyswllt Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Oedolion.

Cwblhaodd pob un o asiantaethau statudol Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru becyn cymorth hunanasesu. O ganlyniad, aeth yr asiantaethau ati i ddiweddarau eu polisiau a'u gweithdrefnau, darparu tystiolaeth o'r hyfforddiant a gyflwynwyd, a nodi ble'r oedd systemau TG wedi cael eu diweddarau. At hynny, cafodd contractau comisiynu ar draws y rhanbarth eu diweddarau er mwyn adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Nododd y gwaith bryder am ganlyniadau ar ddiwedd proses Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gan nodi bod angen canllawiau ychwanegol ynghylch y trothwy ar gyfer y cyfarfodydd dan sylw. Felly, cafodd adborth ei roi i'r Bwrdd Prosiect Cenedlaethol.

Blaenoriaeth Strategol 2. Parhau i hybu ymwybyddiaeth a chydymffurfio yng nghyswllt Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Plant.

Yn yr un modd, cwblhaodd pob un o asiantaethau statudol y Bwrdd Diogelu Plant yr hunanasesiad. Yn ogystal â'r canfyddiadau a nodir uchod, nododd yr archwiliad nifer o enghreifftiau yng nghyswllt ymarfer sy'n canolbwyntio ar blant, a oedd yn cynnwys y cymorth a ddarperir yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant gan eiriolwyr a chymheiriaid/bydis. Roedd mwy o ffocws hefyd ar brofiadau go iawn y plentyn.

Blaenoriaeth Strategol 3: Parhau i sicrhau dull cadarn, cydnherth a chyson o ymdrin ag ymarfer diogelu yn ystod y pandemig Covid-19.

Yn ystod 2021-22, parhaodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i fonitro effaith Covid-19. Nodwyd y problemau canlynol:

- » Gweithlu a recriwtio – mae yna brinder staff diogelu rheng flaen ym mhob asiantaeth.
- » Dewisiadau o ran lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – mae angen cynyddu'r dewis o leoliadau / recriwtio gofalywyr maeth / lle bo'n bosibl lleihau'r angen am leoliadau na chânt eu rheoleiddio.
- » Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau/ adroddiadau'n ymwneud â diogelu oedolion.
- » Cymhlethdod achosion diogelu ym maes Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant.
- » Rheoli proses Adran 5 – ceir dulliau gweithredu gwahanol ym mhob ardal awdurdod lleol.
- » Caledi ariannol.
- » Gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
- » Effaith oedi gan ambiwlansys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.

At hynny, cafodd gwaith pellach ei gyflawni yn y meysydd canlynol:

- » Y llwybr diogelu amlasiantaeth yng nghyswllt cam-drin domestig ac achosion lle mae oedolyn yn wynebu risg.
- » Treialu cynnal cyfarfodydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn wythnosol ar draws y rhanbarth er mwyn ymateb i'r cynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig.
- » Datblygu canllawiau ymarfer yng nghyswllt cam-drin domestig ac oedolyn sy'n wynebu risg, a chanllawiau ymarfer amlasiantaeth ar gyfer ymdrin ag achosion o gam-drin domestig er mwyn diogelu oedolion sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

- » Datblygu Llwybr Caethwasiaeth Fodern ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg, a datblygu deunydd codi ymwybyddiaeth.
- » Gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng nghyswllt y cynllun peilot sy'n ymwneud ag Ymholiadau Adran 126, er mwyn cynorthwyo ymarferwyr iechyd.
- » Parhau i roi ar waith y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol.
- » Hyrwyddo'r ymgyrch 'Stop It Now'.
- » Ymateb i'r wefan 'Everyone's Invited'.

Themâu diogelu sy'n deillio o ymarfer

Yn ystod eleni, ni chafodd unrhyw themâu ymarfer penodol eu nodi gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ond gwnaeth y Bwrdd gynnal cyfres o adolygiadau ymarfer.

Diogelu wrth bontio

Cafodd adolygiad ei gynnal er mwyn canolbwyntio ar y 'trefniadau pontio' ar gyfer pobl ifanc y nodwyd eu bod yn wynebu risg y gallai rhywun gamfanteisio arnynt ac yn wynebu problemau mawr wrth dyfu i fod yn oedolyn. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn ymgynghori ynghylch drafft o Ganllaw Ymarfer Rhanbarthol ar gyfer Pontio.

Ymateb i ganfyddiadau'r dadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng Nghymru

Buodd y prosiect ymchwil hwn a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn edrych ar yr hyn a ddysgwyd o ddadansoddiad systematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Oherwydd y pryderon difrifol y tynnodd yr adroddiad sylw atynt ynghylch Diogelu Oedolion yng Nghymru, gofynnodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru am ymateb i'r adroddiad ac am ddiweddariadau yn ystod y flwyddyn gan y Grwpiau Cyflawni Lleol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd.

Yr Adroddiad Blynyddol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch yr Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod

Buodd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn monitro prosesau'r Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod, a gychwynnwyd yn y gogledd, a sicrhodd fod yr ymateb gweithdrefnol yn cael ei ddilyn i'w ddiwedd.

Gwybodaeth a dysgu

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys tabl o wybodaeth neu waith dysgu a ddosbarthwyd gan y Bwrdd Diogelu, neu'r hyfforddiant yr oedd wedi'i argymhell neu'i ddarparu drwy gydol y flwyddyn:

- » Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol – Hyfforddiant Amlasiantaeth
- » Dysgu o Adolygiad Ymarfer Plant yng Ngogledd Cymru ar gyfer Addysg
- » Ar Goll – Cyfweiliadau Dychwelyd Adref
- » Hybu ymwybyddiaeth o'r canllaw ymarfer ynghylch asesu cyn geni
- » Diogelu cyd-destunol a'r cyd-destun cyfreithiol yng Nghymru
- » Hyfforddiant ynghylch ymchwilio ar y cyd / sicrhau'r dystiolaeth orau
- » Trosolwg o'r canllawiau statudol ynghylch diogelu plant rhag camfanteisio rhywiol
- » Rôl yr Adolygydd Ymarfer Plant.

Gwefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Cafodd y wefan ei defnyddio i ddarparu adnoddau a oedd yn sicrhau bod ymarferwyr a'r cyhoedd yn cael y manylion diweddaraf am newidiadau o ran polisi, llinellau cymorth newydd a gwybodaeth gyffredinol a gasglwyd o bob cwr o Gymru a gweddill y DU.

Negeseuon allweddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Roedd negeseuon o gyfarfodydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gael drwy'r llyfrgell adnoddau.

Briffiau 7 munud

Cafodd briffiau 7 munud eu defnyddio i dynnu sylw at faterion a themâu drwy gydol y flwyddyn. Mae cyfanswm o 160 o friffiau ar gael ar hyn o bryd ar y wefan. Cafodd nifer o friffiau eu creu ar gyfer wythnosau penodol a oedd yn ymwneud â themâu cenedlaethol, e.e. yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Ddementia.

Cardiau Z

Erbyn hyn, mae ymarferwyr ar draws y gogledd yn gallu cael gafael ar nifer o gardiau Z am ymarfer diogelu.

Darparu adnoddau ar gyfer y Bwrdd Diogelu

Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd wedi bod yn dda. Cydnabuwyd nad oedd yn bosibl bob amser i uwch-swyddogion fynychu cyfarfodydd, ac ar yr adegau hynny buodd cynrychiolwyr eraill o'r sefydliadau dan sylw'n dirprwyo drostynt.

Defnyddiodd y Bwrdd y Fformiwla Ariannu Genedlaethol i asesu a nodi cyllid blynyddol gan bartneriaid statudol y Bwrdd. Roedd y rhan fwyaf o wariant y Bwrdd yn ymwneud â chostau staffio. Cafwyd cyfnod o bedwar mis heb Weinyddwr Diogelu oherwydd bod y Bwrdd wedi cael trafferth llenwi'r swydd wag honno.

Yn adroddiad eleni, cafodd cost comisiynu adolygwyr i gynnal adolygiadau ymarfer a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth ei chynnwys oherwydd ei bod yn anodd cael adolygwyr mewnol o'r rhanbarth.

Cyfranogiad a chynnwys pobl

Buodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn gweithio gyda Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol i gomisiynu hyfforddiant ynghylch Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac ynghylch Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer darparwyr eiriolaeth. Rhoddodd cynrychiolwyr gwasanaethau eiriolaeth yn y Grwpiau Cyflawni Lleol adborth gan oedolion sy'n wynebu risg, ynghylch eu barn am y broses ddiogelu. Ar ôl cael yr adborth hwnnw, cafodd negeseuon allweddol eu dosbarthu ar draws y rhanbarth ar gyfer ymarferwyr diogelu.

Cyflawnodd Gwasanaethau Plant waith gyda'r gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol i greu Bwrdd Diogelu lau, ond nid oedd yn llwyddiannus. Yn hytrach, rhoddodd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru gyflwyniadau i ysgolion a cholegau dethol am rôl y Bwrdd Diogelu Plant ac am negeseuon allweddol. Rhoddodd hynny gyfleoedd i rannu'r canllawiau ymarfer drafft/briffiau 7 munud, ac ychwanegodd y plant at y canllawiau.

Arweiniodd adborth gan rieni/gofalwyr ynghylch y meysydd yr oeddent am i'r Bwrdd Diogelu Plant ganolbwyntio arnynt at gyhoeddi rhai negeseuon allweddol am TikTok. Cafodd gwybodaeth arall i ddiogelu plant rhag achosion o gamfanteisio ar-lein ei datblygu hefyd, e.e. 15 ap y dylai rhieni wybod amdanynt.

Adroddiad Blynyddol

Roedd [Adroddiad Blynyddol Byrddau Diogelu Gogledd Cymru](#) yn ymdrin â'r holl elfennau a nodir yn y canllawiau statudol, a chafodd ei gyhoeddi'n unol â'r gofynion statudol.



Cyflwyniad

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn ymdrin ag ardaloedd awdurdod lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ac yn gwasanaethu poblogaeth o ychydig dros 400,000.

Mae'r Bwrdd yn fwrdd amlasiantaeth, mae presenoldeb yn ei gyfarfodydd yn dda a chaiff ei gynorthwyo gan Uned Fusnes.

Ceir trefniadau cyd-gadeirio a cheir pedwar is-grŵp sy'n gyfrifol am hyfforddiant; rheoli perfformiad; rheoli polisi, gweithdrefnau ac ymarfer; a rheoli adolygu ymarfer. Mae'r is-grwpiau yn cyfrannu i'r prif Fwrdd.

Mae cynrychiolwyr y Bwrdd hefyd yn ymwneud â Llywodraeth Cymru, Byrddau Rhanbarthol eraill o bob cwr o Gymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac asiantaethau eraill fel y bo angen.

Cyflawni'r Cynllun Blynyddol

Mae gan y Bwrdd Diogelu Plant a'r Bwrdd Diogelu Oedolion Gynllun Blynyddol ar y cyd. Caiff y canlyniadau eu nodi ochr yn ochr â'r camau gweithredu sy'n ofynnol. Caiff pob cam gweithredu ei neilltuo i un o'r grwpiau rheoli neu i unigolyn – a gaiff ei ddwyn i gyfrif drwy'r broses fonitro. Caiff cerrig milltir eu gwirio ym mhob cyfarfod, ac adroddir ynghylch risgiau/problemau a chyflawniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd gan ddefnyddio templedi adrodd am statws.

Cynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg 2021-22


O gofio'r pandemig a oedd yn parhau, penderfynodd y Bwrdd barhau â'i ddull gweithredu a oedd yn ymwneud â Covid. Y flaenoriaeth o ran diogelu oedd – sicrhau dull cadarn, cydnerth a chyson o ymarfer diogelu yn ystod y pandemig COVID-19.

Ar sail y flaenoriaeth strategol hon, nododd y Bwrdd ddau brif faes ffocws:


1. Deall effaith Covid a goruchwylio ac adolygu effeithlonrwydd mesurau a gymerwyd gan asiantaethau wrth iddynt ailalinio trefniadau llywodraethu, prosesau ac ymarfer er mwyn ymateb i Covid-19.
2. Sicrhau bod yr ymateb i Covid ar draws y rhanbarth yn bwyllog, yn gyfreithlon ac yn gyson a sicrhau mai diogelu yw'r edau aur bob amser.

Yn y Cynllun Blynyddol wedyn, eglurodd y Bwrdd beth yr oedd am ei gyflawni a beth oedd y dangosyddion canlyniadau. Yna, neilltuodd dasgau i'r is-grwpiau perthnasol. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Bwrdd wedi penderfynu llunio cynllun 3 blynedd ar gyfer 2022-25.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adran gan bob is-grŵp o'r enw "Sut yr ydym wedi gwneud gwahaniaeth", sy'n dadansoddi'r hyn a gyflawnwyd ar sail y Cynllun Blynyddol.



Siart Sefydliadol



Y grŵp rheoli ansawdd a pherfformiad

Nododd y Grŵp Rheoli Ansawdd a Pherfformiad fod y sicrwydd allweddol y mae wedi'i geisio yn ymwneud â chapasiti a gallu pob asiantaeth i gyflawni ei swyddogaethau diogelu. Y brif neges yw bod asiantaethau dan bwysau difrifol, ond nad oes yr un ohonynt wedi sôn bod y pwysau hwnnw'n tanseilio eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau diogelu. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc sydd â phryderon am eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol.

Y grŵp rheoli polisi, gweithdrefnau ac ymarfer

Mae gan y grŵp rheoli polisi, gweithdrefnau ac ymarfer rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni amcanion cyffredinol y Bwrdd Diogelu, sef sicrhau bod polisiâu ac arferion gweithio effeithiol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion a'u bod yn cael eu cydgysylltu'n briodol. Dim ond pan fydd y rhain ar waith y dylai Byrddau ystyried eu cylch gorchwyl ehangach, sef diogelu a hybu lles pob plentyn a phob oedolyn.

Mae'r grŵp rheoli polisi, gweithdrefnau ac ymarfer wedi parhau i ganolbwyntio ar adolygu ei bolisiâu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau newydd, ac mae wedi ceisio sicrwydd gan asiantaethau partner eu bod nhw wedi gwneud yr un peth.

Mae ffocws y grŵp rheoli polisi, gweithdrefnau ac ymarfer yn ystod eleni wedi bod yr un fath ag yn ystod blynyddoedd blaenorol, sef datblygu ac adolygu polisi, gweithdrefnau ac arweiniad rhanbarthol ynghylch sut y byddai gwasanaethau'n parhau i weithredu pan oedd y pandemig – sy'n parhau – ar ei anterth. Cafodd Canllawiau Diogelu Gorllewin Morgannwg yn ystod Covid-19 eu creu a'u dosbarthu i bob un o bartneriaid y Bwrdd Diogelu.

Y grŵp adolygu ymarfer

Comisiynodd y Bwrdd hyfforddiant ar gyfer adolygwyr ymarfer oherwydd bod yna ddiffyg cadeiryddion ac adolygwyr cymwys. Nod yr hyfforddiant oedd datblygu sgiliau a chymhwysedd a meithrin hyder. Cafodd yr hyfforddiant groeso brwd ac mae wedi cynyddu'r gronfa o gadeiryddion ac adolygwyr sydd ar gael.

Caiff pob adolygiad ei gyflwyno i'r Bwrdd gydag adroddiad, cynllun gweithredu a brîff 7 munud. Mae'r brîff 7 munud wedi bod yn ddull effeithiol o raeadru'r hyn a ddysgir o adolygiadau.

Yn ystod 2021-22, cafodd y Bwrdd ddau atgyfeiriad ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant. Aeth un yn ei flaen i fod yn Adolygiad Ymarfer Plant cryno ac aeth un yn ei flaen i Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth.

At hynny, cafodd y Bwrdd dri atgyfeiriad ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion. Aeth un yn ei flaen i Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth; nid oedd un yn bodloni'r meini prawf; ac nid oedd gan un ddigon o wybodaeth, a byddai'n cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf a oedd y tu allan i gwmpas adroddiad eleni.

Cyhoeddodd y Bwrdd ddau Adolygiad Ymarfer Oedolion yn ystod eleni.

Themâu diogelu sy'n deillio o ymarfer

Mae dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion wedi parhau i ddigwydd ac mae arfer da wedi'i ddosbarthu.

Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu, cynhaliodd y Bwrdd ddigwyddiad ar-lein lle cafodd tri Adolygiad Ymarfer eu cyflwyno a lle cafodd y gwaith dysgu a nodwyd ei rannu. Roedd 61 o weithwyr proffesiynol yn bresennol drwy Microsoft Teams, a chafwyd adborth cadarnhaol gyda chais i'r digwyddiadau dysgu ar-lein hyn barhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth a dysgu

Caiff hyfforddiant a dysgu eu cydgysylltu drwy'r cyd-grŵp rheoli hyfforddiant strategol.

Mae'r Bwrdd wedi defnyddio dulliau hyfforddi rhithwir ac wyneb yn wyneb.

Cafodd hyfforddiant arbenigol gan Sefydliad Lucy Faithful ynghylch Cam-drin Plant yn Rhywiol ei gomisiynu.

Cafodd hyfforddiant ynghylch achosion o ddatgelu trais rhywiol ei gyflwyno gan wasanaethau arbenigol lleol a'i fynychu gan wirfoddolwyr a gweithwyr amlasiantaeth rhanbarthol.

Eglurwyd mai dyma oedd y rhesymau dros gyflwyno hyfforddiant:

- » Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am Weithdrefnau Diogelu Cymru
- » Sicrhau bod pob partner yn glynu wrth ymarfer diogelu trwyadl a chysylltu er mwyn ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru
- » Sicrhau ymarfer diogelu cyson o safon
- » Cyfrannu at godi ymwybyddiaeth
- » Ymateb i argymhellion 2020 y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol
- » Datblygu ymateb cadarn i gamfanteisio, ar draws Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion
- » Darparu cymorth yng nghyswllt diogelu cyd-destunol, niwed y tu allan i'r teulu a
 - » Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
 - » Trais oherwydd llinellau cyffuriau
 - » Camfanteisio a chyflenwi cyffuriau – adroddiad briffio cenedlaethol 2017
 - » Hyrwyddo lles plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol – Protocol Cymru Gyfan 2013

- » Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

- » Y ddyletswydd Prevent.

Cafodd niferoedd staff yn yr awdurdod lleol sydd wedi cwblhau amryw fodiwlau hyfforddiant eu cofnodi.

Darparu adnoddau ar gyfer y Bwrdd Diogelu

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi manylion am gyfanswm costau'r Bwrdd ac yn rhoi manylion y symiau a wariwyd ar staffio, hyfforddi a datblygu ac ar gyflenwadau a gwasanaethau. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod yr amser y mae aelodau'r Bwrdd yn ei gyfrannu, nad yw'n rhwydd ei fesur na rhoi gwerth arno.

Mae'r Bwrdd yn defnyddio'r Fformiwla Genedlaethol i bennu cyfraniadau ariannol gan asiantaethau partner statudol.

Cyfranogiad a chynnwys pobl

Mae'r Bwrdd yn gwahodd amrywiaeth o bobl a sefydliadau fel mater o drefn i gymryd rhan yn ei waith, gan gynnwys teuluoedd sy'n destun adolygiadau ymarfer a'r Bwrdd Diogelu lau.

At hynny, mae gan y Bwrdd rwydwaith mawr o sefydliadau a phartneriaethau y mae'n ymgysylltu â nhw, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adrannau sy'n sôn am waith a metrigau diogelu rhai o'r asiantaethau sy'n cyfrannu i'r Bwrdd.



Mae'r Bwrdd Diogelu lau yn weithgar tu hwnt. Cynhaliodd gyfres o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, a oedd yn cynnwys cynnal Equali-Tea er mwyn codi ymwybyddiaeth o bryderon y gymuned LGBTQIA+ am ddiogelu, a chynhyrchu llythyr newyddion er mwyn ymgysylltu ag ysgolion. Cafodd yr aelodau gyfle hefyd i fynychu hyfforddiant ynghylch paratoi ar gyfer bod yn aelod o'r Bwrdd, a gyflwynwyd gan Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot. Mae neges yr ymgyrch Cadw'n Ddiogel mewn Chwaraeon yn cael ei hyrwyddo o hyd.

Adroddiad Blynyddol

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

EQUALI-TEA WITH THE JSB

LGBTQIA+ QUIZ

1. WHAT DOES LGBTQIA+ STAND FOR?
2. WHAT COLOURS ARE ON THE RAINBOW PRIDE FLAG?
3. WHAT % OF LGB PEOPLE THOUGHT THEY WERE LGB BEFORE THEY WERE 11?
4. WHAT COUNTRY HOLDS THE RECORD FOR THE BIGGEST PRIDE PARADE EVER?
5. WHO WON SEASON 2 OF DRAG RACE UK 2021?
6. WHAT % OF LGBTQIA+ YOUNG PEOPLE HAVE AN ADULT AT HOME THEY CAN TALK TO ABOUT BEING LGBTQIA+?
7. WHAT % OF TRANS PEOPLE KNEW THEY WERE TRANS BEFORE THEY WERE 11?
8. WHAT DOES OUTED MEAN?
9. WHAT % OF LGBTQIA+ PUPILS IN WALES HAVE EXPERIENCED BULLYING IN SCHOOLS?
10. HOW DOES SINGER DEMI LOVATO IDENTIFY THEMSELVES?

Dyletswydd Strategol 3 y Bwrdd Cenedlaethol:

Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (Adran 132 (2)).

Cyfrifoldeb penodol 4 y Bwrdd Cenedlaethol: Os bydd...yn nodi **thema o bryder**...gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymhell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol.

Cafodd themâu a oedd yn peri pryder eu nodi a'u huwchgysfeirio er mwyn i fesurau priodol gael eu rhoi ar waith. Cafodd y themâu hynny eu nodi drwy:

- » gyfarfodydd bob mis â swyddogion Llywodraeth Cymru,
- » canlyniadau tystiolaeth o waith ymchwil, adolygiadau neu waith ymgysylltu â grwpiau cyfeirio arbenigol, gan gynnwys y Byrddau Diogelu Rhanbarthol,
- » gohebiaeth ysgrifenedig am themâu sy'n peri pryder, a anfonwyd i'r Bwrdd Cenedlaethol,
- » trafodaethau ffurfiol â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddwywaith y flwyddyn.

Comisiynwyd ymchwil i feysydd sy'n peri pryder neu feysydd lle mae angen gwella:

- » Cam 2 Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru,
- » Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng Nghymru.

Argymhellion blaenorol i Weinidogion, a'r cynnydd a wnaed hyd yma

Gyda chytundeb y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd unrhyw argymhellion a wnaed yn flaenorol gan y Bwrdd Cenedlaethol yn dal i gael eu cynnwys yn ein Hadroddiadau Blynnyddol nes y byddant wedi'u cwblhau, fel y cytunwyd.

Adroddiad Blynnyddol 2018-2019

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu'r gwaith o gasglu data am achosion o gam-drin pobl hŷn, a sicrhau bod y data hwnnw'n cael ei ddadansoddi'n effeithiol er mwyn deall cyffredinolrwydd achosion o gam-drin pobl hŷn a deall profiadau pobl hŷn.

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022:

Mae'r Grŵp Datblygu Cyfrifiad o Oedolion wedi ystyried canllawiau drafft ar gyfer y Cyfrifiad newydd, sef y Cyfrifiad o Oedolion sy'n cael Gofal a Chymorth, ac wedi cytuno arnynt. Mae'r Cyfrifiad wrthi'n cael ei dreialu gan awdurdodau lleol yn awr. Bwriedir y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2022. Bydd y Cyfrifiad yn darparu data manwl am oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin. Mae'r meysydd sydd i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- » Rhesymau'r oedolyn dros fod angen gofal a chymorth
- » A yw'r oedolyn yn ymwneud ag unrhyw weithdrefnau diogelu (a'r categori diogelu)
- » Ynghyd â'r ystod o wybodaeth ddemograffig er mwyn gwahanu'r boblogaeth.

Ymateb y Bwrdd Cenedlaethol:

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn disgwyl am ganlyniad treialu'r Cyfrifiad.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cael gwybod sut y bydd yn casglu data am yr holl oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin yn y boblogaeth gyffredinol, yn ogystal â'r garfan lai o lawer o oedolion sy'n cael gofal a chymorth yn barod. At hynny, mae gennym ddiddordeb mewn cael gwybod sut y bydd y data'n cael ei ddadansoddi ac a fydd adroddiad blynnyddol yn cael ei lunio, sy'n cynnwys mwy na data crai ac a fydd yn sail i'r darlun cenedlaethol o gyffredinolrwydd cam-drin pobl hŷn yn y boblogaeth gyffredinol a'u profiadau.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y gwaith a wneir ynghylch datblygu safonau diogelu a fframweithiau canlyniadau yn cysylltu â'r gwaith y gofynnodd i'r Bwrdd Cenedlaethol ei gomisiynu ynghylch datblygu fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaeth, ac nad yw'n arwain at ddyblygu gwaith yn ddiangen.

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022

Mae swyddogion ym maes lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n datblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol. Disgwylir y bydd y Fframwaith drafft yn barod yn ystod y misoedd nesaf. Bydd swyddogion yn cyflwyno'r Fframwaith i grwpiau rhanddeiliaid yn ystod y misoedd sydd i ddod, gan gynnwys y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yn cael ei ymgorffori yn Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2023-2024.

Ymateb y Bwrdd Cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn croesawu'r camau a gymerwyd i ddatblygu'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd angen creu cysylltiadau rhwng yr agwedd ar y Fframwaith sy'n ymwneud â chamdriniaeth ac esgeulustod a'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol, sy'n cael ei hwyluso gan y Bwrdd Cenedlaethol ar hyn o bryd.

Adroddiad Blynnyddol 2019-2020

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru bennu amserlen ar frys ar gyfer cyhoeddi'r Canllawiau Statudol ynghylch Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru.

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022

Disgwylir ymateb gan gynrychiolwyr y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Roedd y diweddariad blaenorol fel a ganlyn:

Mae cynlluniau ar gyfer datblygu canllawiau statudol newydd a rheoliadau ynghylch cronfeydd data wrthi'n cael eu hadolygu. Mae cydweithwyr ym maes Addysg yn gobeithio bod mewn sefyllfa i wneud y ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ystod 2022, gyda'r bwriad y bydd y rheoliadau'n dod i rym yn swyddogol yn ystod 2023. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cwblhau'r Canllawiau Statudol ynghylch Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref. Rhagwelir y bydd y canllawiau hynny ar gael ym mis Ebrill 2023.

Ymateb y Bwrdd Cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi'i siomi gan y diffyg cynnydd yng nghyswllt y mater pwysig hwn, a byddai'n croesawu cael amserlen waith gadarn. Mae'r gwaith eisoes wedi llithro o ddiwedd 2022, sef y dyddiad a gadarnhawyd gan y Dirprwy Weinidog yn ein cyfarfod â hi ym mis Mehefin 2022, oherwydd y bwriad yn awr yw cyhoeddi'r canllawiau ym mis Ebrill 2023.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru anrhydeddu'r ymrwymiad a wnaed i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad y dylai pob aelod o staff addysgu a thimau arwain lleoliadau annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022:

Mae diogelu pob dysgwr yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith i gryfhau mesurau diogelu mewn ysgolion annibynnol ac i adolygu Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn mynd yn ei flaen. Ar wahân i hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo yn gyflym i ddiwygio deddfwriaeth er mwyn mynnu bod staff addysgu mewn ysgolion annibynnol yn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Ymateb y Bwrdd Cenedlaethol:

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn parhau'n siomedig o glywed am yr oedi hwn sy'n golygu y gallai dysgwyr yn y sector preifat fod yn wynebu mwy o risg na dysgwyr eraill sy'n cael addysg statudol. Byddai'r Bwrdd yn croesawu cael amserlen waith ar gyfer y mater hwn.

Adroddiad Blynnyddol 2020-2021

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn deall effaith a gwaddol y pandemig COVID-19 o safbwynt diogelu yng Nghymru.

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022:

Mae tîm wedi'i gynnull i arwain ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymchwiliad Cyhoeddus i Covid-19, ac mae'n bwysig ein bod yn cysylltu â'r gwaith hwnnw ym mhob agwedd ar ystyriaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau yng ngoleuni'r pandemig. Mae proses yr Ymchwiliad yn mynd rhagddi ac mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau ei bod yn ymdrin â phob maes polisi, sy'n cynnwys archwilio'r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod yr adeg a oedd yn arwain at gyflwyno'r cyfnod clo. Mae'n annhebygol y bydd yr argymhellion a fydd yn deillio o'r Ymchwiliad yn cael eu nodi am o leiaf flwyddyn arall. Mae'r gwaith yn parhau.

Ymateb y Bwrdd Cenedlaethol

Croesawodd y Bwrdd Cenedlaethol y diweddariad hwn ac mae wedi gofyn am gael gweld cylch gorchwyl yr Adolygiad Cenedlaethol pan fydd ar gael. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach maes o law i effaith y pandemig ar ddiogelu.

Argymhellion newydd i Weinidogion 2021-2022

Prosiect Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru (atodiad 1)

Argymhelliad 6

Erbyn diwedd 2022, bydd argymhellion wedi deillio o'r gwaith a gwblhawyd. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn argymhell y dylid cydweithio â'r Dirprwy Weinidog ac â rhanddeiliaid allweddol i symud yr argymhellion hynny yn eu blaen yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Argymhelliad 7

Yng ngoleuni pryderon cenedlaethol am ddiffygion yn y gweithlu, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn argymhell y dylid cefnogi camau i gynnwys data am y gweithlu yn y prototeip o'r fframwaith perfformiad amlasiantaeth cenedlaethol er mwyn sicrhau gwaith monitro cyson ac ystyried atebion posibl i leihau'r effaith ar arferion diogelu.



**Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru**

**National Independent
Safeguarding Board Wales**



Dysgwch fwy



www.bwrdddiogelu.cymru



[@NISBwales](https://twitter.com/NISBwales)



[safeguardingwales](https://www.facebook.com/safeguardingwales)

